# GWNEUD AR LAI!




Mae Prydain wedi mewnforio bwyd ers canrifoedd. Pan ddechreuodd yr Ail Ryfel Byd yn 1939 roedd y rhan fwyaf o'r bwyd yn cael ei gario i Brydain ar longau. Un o'r pethau cyntaf wnaeth Hitler oedd defnyddio llongau tanfor i saethu llongau oedd yn cario nwyddau i Brydain. Golygai hyn bod nwyddau yn mynd yn brin.

I helpu'r sefyllfa cyflwynodd Llywodraeth Prydain drefn o ddogni fel bod pawb yn cael chwarae teg.

Cafodd pob dyn, dynes a phlentyn lyfr dogni i brynu bwyd ac roedd yn rhaid iddyn nhw gofrestru mewn siop groser. Dim ond digon o fwyd i'r cwsmeriaid ar ei restr fyddai'r groser yn ei gael ac roedd yn rhaid iddo roi sticer ar y llyfr dogni i ddangos bod dogn yr wythnos wedi cael ei phrynu.

Menyn, siwgwr a chig moch gafodd eu dogni gyntaf. Erbyn canol y 1940au roedd cig, wyau, caws, jam, te a llaeth wedi cael eu dogni.
Ym mis Mehefin 1941 cafodd dillad eu dogni oherwydd prinder deunydd crai, ac i ryddhau'r ffatrioedd a'r gweithwyr i gynhyrchu arfau ac awyrennau ar gyfer y rhyfel.

**Dogn un person**
Ni chafodd llysiau eu dogni ond roedden nhw'n brin. Roedd pobl oedd â gerddi yn cael eu hannog i blannu llysiau yn lle blodau. Slogan y Llywodraeth am hyn oedd 'Digging for Victory'.

| | |
|---|---|
| 4owns (113g) | lard neu fenyn |
| 12owns (340g) | siwgwr |
| 4owns (113g) | cig moch |
| 2 | ŵy |
| 6owns (170g) | cig |
| 2owns (57g) | te |

*Dogn un person*




Yr unig ffrwythau ar gael oedd y rhai oedd yn cael eu tyfu ym Mhrydain fel afalau, gellyg, eirin a mefus. Doedd ffrwythau o dramor, fel bananas ac eirin gwlanog, ddim ar gael o gwbl.

Powdwr wyau sych fyddai’n cael ei ddefnyddio i goginio ŵy wedi sgramblo.

**Dogni dillad**
Roedd pawb yn cael llyfr bob blwyddyn yn cynnwys 66 taleb i brynu. Erbyn 1942, 48 taleb y flwyddyn oedd ar gael ac aeth y nifer i lawr i 36 yn 1943.
Dyma’r nifer o dalebau oedd eu hangen ar gyfer dillad:

| Dilledyn | Dynion | Merched | Plant |
|---|---|---|---|
| Cot law | 16 | 15 | 11 |
| Cot | 7 | 7 | 4 |
| Siaced | 13 | 12 | 8 |
| Crys/ Blows | 5 | 4 | 3 |
| Siwmper/ Cardigan | 5 | 5 | 3 |
| Trowsus | 8 | 8 | 6 |
| Siorts | 3 | 3 | 2 |
| Sgert | | 8 | 6 |
| Bŵts/Esgidiau | 7 | 5 | 3 |
| Gŵn nos/ Coban/ Pyjamas | 8 | 6 | 6 |
| Dillad isaf | 3 | 3 | 2 |
| Sanau | 2 | 2 | 1 |

Doedd dillad ail law ddim yn cael eu dogni. Defnyddiai’r Llywodraeth y slogan ‘Make Do and Mend’ i annog pobl i drwsio dillad.